

Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru¹

Mae'r erthygl hon yn crynhoi canfyddiadau o amrywiaeth o ddadansoddiadau sy'n ymwneud â'r boblogaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle gallai effaith Coronafeirws (COVID-19) a/neu'r mesurau ataliol dilynol effeithio'n anghymesur ar y boblogaeth BAME.

Cafodd y dadansoddiadau yma eu dwyn ynghyd i gefnogi gwaith Grŵp Cyngorol BAME ar COVID-19 y Prif Weinidog, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020 a bydd yn adrodd ar 22 Mehefin. Mae'r erthygl hon yn crynhoi'r dadansoddiadau sydd ar gael i'r grŵp hyd at 19 Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae dadansoddiadau ystadegol newydd yn parhau i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar amrywiaeth o bynciau perthnasol.

Mae llawer o adroddiadau (wedi'u crynhoi yn y papur tystiolaeth Grŵp Ymgynghorol BAME COVID-19 – effaith bosibl COVID-19) wedi tynnu sylw at faterion a allai, ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig, effeithio ar y risg mae COVID-19 yn ei pheri i'w hiechyd a'u lles naill ai'n uniongyrchol, neu drwy effaith anghymesur ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a allai arwain at ganlyniadau hirdymor.

Mae'r dadansoddiad isod yn cyflwyno'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru mewn cysylltiad ag amrywiaeth o'r materion hyn, ac yn nodi'r cyd-destun i Gymru y gellir ystyried tystiolaeth ehangach o Gymru a Lloegr, neu'r DU, ynddi.

Yn Atodiad A mae manylion am rywfaint o'r wybodaeth ehangach o'r DU, gan gynnwys y dadansoddiad a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau COVID-19 yn ôl ethnigrwydd a galwedigaeth, a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys am gleifion y cofnodwyd eu bod yn ddifrifol wael mewn adran gofal dwys gydag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau. Mae hefyd yn cynnwys negeseuon allweddol o arolwg Iechyd a Lles gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ebrill a Mai 2020 am boblogaethau BAME.

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Mehefin 2020

Diweddariad nesaf: Dim yn allbwn rheolaidd

Awdur: Scott Clifford, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Ebost: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

Ffôn: 0300 025 5050 (Linell Ymholiadau Cyffredinol)

Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

1 Ceir nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol ar ddiwedd y ddogfen hon.

1 Demograffeg cefndir

Mae amcangyfrifon diweddar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth² yn dangos y canlynol:

- Mae 5.9% o boblogaeth Cymru yn disgrifio eu hunain fel Asiaidd, Du, 'Cymysg/grŵp aml-ethnig' neu 'Grŵp ethnig arall'.
- Ond roedd cyfran y boblogaeth a oedd yn disgrifio eu hunain fel BAME yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol – o 1.7% yn Wrecsam i 19.8% yng Nghaerdydd.
- O'r 1,397,400 o bobl sydd mewn gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd, mae 5% yn ystyried eu hunain yn BAME.

2 Cyflogaeth

Mae [Adroddiad Llesiant Cymru 2019](#) yn nodi bod y cyfraddau cyflogaeth rhwng 2015-2017 ymysg poblogaeth Cymru o oedran gweithio (16-64) ar eu uchaf ymysg unigolion o ethnigrwydd Gwyn (72%), ac ar eu hisaf ymysg unigolion o ethnigrwydd Arall (50%). Y cyfraddau cyfatebol ymysg unigolion o ethnigrwydd Du, Asiaidd a Chymysg oedd 59%, 60% a 69% yn y drefn honno.

Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer grwpiau ethnig yn wahanol rhwng dynion a merched. Mae'r bwch mwyaf mewn cyfraddau cyflogaeth i'w weld yn y grŵp ethnig Cymysg (81% i ddynion o'i gymharu â 54% i ferched).

Yn ogystal â hynny, 7.5 y cant oedd y bwch cyflog ethnigrwydd yng Nghymru yn 2018. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn ennill, ar gyfartaledd, 7.5 y cant yn llai yr awr o'u cymharu â gweithwyr Gwyn Prydeinig.

Gall patrymau cyflogaeth gael amrywiaeth o effeithiau yn ystod pandemig COVID-19. Gallai pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau penodol, fel gweithwyr allweddol, fod yn wynebu mwy o risg o haint yn sgil eu swyddi.

Mae pobl eraill yn hunangyflogedig neu'n gweithio mewn swyddi anniogel, er enghraifft mewn diwydiannau sydd wedi gorfod cau yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, ac felly'n wynebu mwy o risg o oblygiadau economaidd COVID-19 o bosib.

2.1 Gweithwyr hanfodol (allweddol)

[Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi cynhyrchu dadansoddiad](#) o'r garfan gweithwyr hanfodol (allweddol) yng Nghymru (2019) yn ôl ethnigrwydd.

Fodd bynnag, sylwch fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar alwedigaethau y gellir eu cyfateb yn uniongyrchol i'r rheini sydd wedi'u rhestru yng [nghanllawiau](#) Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb cyflogwyr ar lawr gwlad yw pennu pa weithwyr sy'n weithwyr allweddol.

Yn ogystal â hynny, nid oedd modd cyfateb rhai galwedigaethau i alwedigaeth benodol, er enghraifft glanhawyr neu arlwywyr sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

² Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019

Mae'r prif bwyntiau i Gymru wedi'u crynhoi isod:

- Roedd cyfran y gweithwyr allweddol o gefndir BAME ychydig yn uwch na'r gyfran ymysg pawb sy'n gweithio (5.8% o weithwyr allweddol o'i gymharu â 5.2% o bawb sy'n gweithio.)
- Er bod gweithwyr gydag ethnigrwydd gwyn yn gyfrif am 94.2% o'r 490,000 o weithwyr hanfodol yng Nghymru, mae rhai grwpiau ethnig eraill yn fwy tebygol o fod yn weithwyr hanfodol. Mae dros hanner o'r gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd yn weithwyr hanfodol, a hanner o weithwyr Du, Affricanaidd, Caribiaidd a Du Prydeinig yn gweithio mewn swyddi hanfodol. Mae gweithwyr o ethnigrwydd Pacistanaidd yn y lleiaf tebygol o fod yn weithwyr hanfodol, gyda 22% o'r garfan.
- O fewn rhai grwpiau ethnig mae yna gyfran uwch byth o fenywod. Roedd tua dau draean (67%) o weithwyr hanfodol o gefndir Asiaidd heblaw am Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd a Tsieiniaidd yn fenywod.

Mae'r dadansoddiad ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau o weithwyr allweddol, fel y rheini ym meysydd addysg a gofal plant, trafniadaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, a bwyd a nwyddau eraill angenrheidiol.

[Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn ei ddadansoddiad i Gymru a Lloegr](#), yn nodi bod rhai lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn rolau gweithwyr allweddol. Mae'n nodi bod gweithwyr Du Affricanaidd yn fwy tebygol o lawer na grwpiau ethnig eraill o fod yn gweithio fel gweithwyr allweddol yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2.2 Cyflogaeth mewn galwedigaethau sy'n wynebu risg uwch o COVID-19

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi dadansoddiad o farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ôl galwedigaeth (hyd at 20 Ebrill 2020) (gweler Atodiad A). Roedd y dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at rai grwpiau galwedigaethau penodol y gellid ystyried eu bod yn wynebu risg uwch o ran COVID-19 neu'r grwpiau hynny yr oeddent wedi canfod, yn eu dadansoddiad i Gymru a Lloegr, fod ganddynt gyfraddau marwolaethau uwch mewn cysylltiad â COVID-19 o'u cymharu â phobl o'r un oedran yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae'r tabl isod yn darparu amcangyfrifon o'r niferoedd sydd mewn swydd yn rhai o'r galwedigaethau penodol hynny yng Nghymru, yn ôl ethnigrwydd. Mae llawer o'r galwedigaethau hyn wedi cael eu codi gan aelodau o'r Grŵp Cynghorol BAME ar COVID-19 hefyd.

Tabl 1: Cyflogaeth mewn galwedigaethau penodol, risg uwch yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd a galwedigaeth, 2019

Galwedigaeth	Gwyn		BAME	
	No.	%	No.	%
Gweithwyr gofal iechyd	106,200	88.8%	13,400	11.2%
Gweithwyr gofal cymdeithasol	68,900	92.8%	5,400 !	7.2% !
Gyrwyr tacsis a chauffeurs	2,800 !	59.8% !	1,900 !!	40.2% !!
Gyrwyr bysiau, coetsys a cherbydau	32,400	95.2%	1,600 !!	4.8% !!
Cogyddion	7,500	74.0%	2,300 !!	22.8% !!
Pob galwedigaeth	1,385,400	94.8%	75,900	5.2%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Nodiadau:

Mae'r canrannau'n cyfeirio at bawb a gyflogir yn y grŵp galwedigaeth ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd nad oedd rhai wedi nodi eu hethnigrwydd.

Defnyddir ! a !! I nodi bod eitemau yn y data wedi'u seilio ar samplau bach o ran eu maint (25-40 a 10-25) ac y dylid eu trin yn ofalus.

2.3 Cyflogaeth mewn diwydiannau a oedd wedi gorfod cau

Mae dadansoddiad wedi cael ei gynhyrchu i amcangyfrif nifer y bobl yng Nghymru sy'n gweithio mewn [diwydiannau a oedd wedi gorfod cau ar 23 Mawrth 2020](#) yn ystod y cyfnod cychwynnol o'r pandemig coronafeirws.

[Mae'r dadansoddiad hwn](#) yn defnyddio [rhestr wreiddiol Llywodraeth y DU](#) o'r mathau o fusnesau a ddylai gau yn ystod yr argyfwng. Mae [Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r un rhestr](#).

Sylwch fod y dadansoddiad hwn yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael ar fusnesau sy'n gweithredu mewn diwydiannau penodol. Nid yw o reidrydd yn adlewyrchu'r busnesau sydd wedi rhoi'r gorau i weithredu go iawn. Er ei bod hi'n debygol iawn y bydd y rhan fwyaf wedi cau, bydd rhai wedi newid eu modelau busnes er mwyn parhau i weithredu (hy gwerthu cludfwyd yn lle gweithredu fel bwyty).

Pwyntiau allweddol am Gymru wedi'u crynhoi isod:

- Yng Nghymru yn 2019 roedd tua 230,000 o bobl wedi'u cyflogi gan ddiwydiannau a chafodd eu cynghori i gau ar ôl yr achosion gyntaf o COVID-19, sydd yn gynrychiadol o 16% o'r holl weithlu. Mae menywod, pobl ifanc a gweithwyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fod yn weithwyr a gyflogir yn y diwydiannau hynny.
- Mae 15,400 (6.7%) o'r bobl sydd wedi'u cyflogi gan ddiwydiannau cafodd eu cynghori i gau oherwydd COVID-19 yn perthyn i'r grŵp BAME. Mae hyn yn rhywfaint yn uwch na'r 5.2% am bawb sy'n gweithio.
- Mae 20% o bob gweithwyr o gefndir BAME yn gweithio mewn diwydiannau a chafodd eu cynghori i gau, i gymharu â 15% o weithwyr ethnig gwyn.

Tabl 2: Cyflogaeth mewn diwydiannau caeedig yn ôl rhanbarth ac ethnigrwydd, 2019

Rhanbarth	Gwyn		BAME		Cyfanswm
	Rhif	%	Rhif	%	Rhif
Y Gogledd	53,700	97.6%	1,300 !!	2.4% !!	55,000
Y Canolbarth a'r De-orllewin	64,200	93.5%	4,400 !	6.5% !	68,700
Y De-ddwyrain	95,600	90.9%	9,600	9.1%	105,200
Cymru	213,500	93.3%	15,400	6.7%	228,900

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth

Nodiadau:

Mae'r canrannau'n cyfeirio at bawb a gyflogir yn y rhanbarth ac mae'n bosibl na fyddant yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd nad oedd rhai wedi nodi eu hethnigrwydd.

Defnyddir ! a !! I nodi bod eitemau yn y data wedi'u seilio ar samplau bach o ran eu maint (25-40 a 10-25) ac y dylid eu trin yn ofalus.

Fodd bynnag, mae dadansoddiad pellach yn dangos bod rhai amrywiadau nodedig rhwng diwydiannau.

Er enghraifft, mae pobl o gefndir BAME yn cyfrif am 11% o'r gweithwyr mewn gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod yng Nghymru. Mae hyn yn fwy na hanner (51%) o'r bobl o gefndir BAME sy'n gweithio mewn diwydiannau a oedd wedi gorfod cau o ganlyniad i COVID-19 (o'i gymharu â 29% o'r bobl gyfatebol o gefndir Gwyn).

[Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn ei ddadansoddiad i Gymru a Lloegr](#), yn nodi bod rhai lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'n nodi bod dynion Bangladeshaidd yng Nghymru a Lloegr bedair gwaith yn fwy tebygol na dynion Gwyn Prydeinig o fod yn gweithio mewn diwydiannau sydd wedi cau, o ganlyniad yn bennaf i'w crynodiad yn y sector bwytai. Mae dynion Pacistanaidd dair gwaith yn fwy tebygol, yn rhannol oherwydd eu crynodiad ymysg gyrrwyr tacsis. Mae dynion Du Affricanaidd a Du Caribiaidd ill dau 50% yn fwy tebygol na dynion Gwyn Prydeinig o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau.

2.4 Hunangyflogaeth

Mae Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU yn darparu incwm i lawer o bobl sy'n gweithio yn y sectorau sydd wedi gorfod cau, ac mae'r Cynllun Cymorth i'r Hunangyflogedig yn darparu cymorth i'r rheini a oedd yn hunangyflogedig cyn y pandemig. Mae'n bosibl bod yr oedi a fu cyn bod y cyllid hwn ar gael tua diwedd mis Mai 2020 wedi golygu y bu mwy o effaith ar bobl hunangyflogedig, o'u cymharu â phobl sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi.

Mae dadansoddiad o hunangyflogaeth yn ôl ethnigrwydd a ddaw o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y canlynol:

- Roedd 4.4% o bobl hunangyflogedig yng Nghymru yn dod o gefndir BAME.
- O'r 9,400 o bobl hunangyflogedig sy'n dod o gefndir BAME, roedd 80% yn ddynion a 63% a'u domisil yn ne-ddwyrain Cymru.
- Cyfran y bobl o gefndir BAME sy'n hunangyflogedig oedd 13.2% – sy'n ychydig yn llai na'r gyfran y bobl hunangyflogedig ym mhoblogaeth Cymru drwyddi draw (14.3%).

[Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn ei ddadansoddiad i Gymru a Lloegr](#), yn nodi bod rhai lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig. Ymysg y rheini o oedran gweithio, mae dynion Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn fwy tebygol o lawer o fod yn hunangyflogedig.

3 Tai

3.1 Deiliadaeth Tai


Mae dadansoddiad o'r data diweddaraf i Gymru sydd ar gael o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos y canlynol:

- Mae hanner y boblogaeth BAME yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent, o'i chymharu ag ychydig o dan draean o'r boblogaeth wyn.
- Mae pobl BAME sy'n rhentu yn fwy tebygol o fyw mewn eiddo rhent preifat nag eiddo cymdeithasol ar rent (o'u cymharu â'r cyfrannau tra thebyg o bobl wyn sy'n byw mewn eiddo rhent preifat ac eiddo cymdeithasol ar rent).

Mae dadansoddiad pellach o set ddata gyfun o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (sy'n cyfuno tair blynedd o ddata'r Arolwg) yn dangos y canlynol:

- Roedd 77% o bobl o gefndir ethnig Du yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent. O'r rhai sy'n rhentu, roedd bron i ddwywaith yn fwy yn byw mewn eiddo cymdeithasol ar rent o'i gymharu ag eiddo rhent preifat.
- Pobl o gefndir ethnig Asiaidd oedd fwyaf tebygol o blith y grwpiau BAME o fyw mewn eiddo roedden nhw'n berchen arno (57%). Serch hynny, roedd y gyfran hon yn dal yn 13 pwynt canran yn is na'r ffigur cyfatebol i bobl o gefndir Gwyn.

Siart 1: Deiliadaeth tai yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd, 2016 i 2018



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Set Ddata Gyfun yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

- O ganlyniad i [Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(2017-18\)](#) rydym yn gwybod, yn gyffredinol, mai yn y sector rhentu preifat mae'r stoc hynaf o dai a chyfran uwch o dai o ansawdd gwael (ee gyda thamprowydd neu beryglon eraill).
- Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd [Sefydliad Bevan](#) adroddiad ar ba fathau o aelwydydd yng Nghymru fyddai'n meddu ar ddigon o asedau hylifol i gymryd lle incwm rheolaidd o bosib, pe bai incwm yn cael ei gollu am 1, 2 neu 3 mis. Ar sail dadansoddiad o'r Arolwg Cyfoeth ac Asedau, roedd yr adroddiad yn nodi y byddai effaith arbennig o wael ar rentwyr pe bai eu hincwm yn dod i ben yn sydyn – dim ond 44% o rentwyr preifat a 35% o rentwyr cymdeithasol yng Nghymru sydd â digon o gynilion i gymryd lle un mis o'u hincwm rheolaidd.
- Ymis Ebrill, roedd y [Resolution Foundation](#) wedi adrodd bod y rheini sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol neu dai rhent preifat yn fwy tebygol o deimlo'r effaith ar eu gallu i weithio na'r rheini sy'n berchen-feddianwyr (dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu yn y DU).

3.2 Tai o ansawdd gwael


Mae dadansoddiad archwiliadol diweddar o ardaloedd bach lle mae cyfrannau uwch o boblogaeth BAME a thebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (dangosydd tai o ansawdd gwael MALIC 2019), yn dangos bod cydberthynas mewn ardaloedd trefol rhwng yr ardaloedd bach hynny sydd â chyfran uwch o drigolion BAME ac ardaloedd sy'n fwy tebygol o gynnwys tai o ansawdd gwael. Ond nid yw hyn yn wir i ardaloedd gwledig yng Nghymru. Nid yw'r dadansoddiad yma wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd, ond mae ar gael ar gais.

3.3 Tai gorlawn

Mae pobl o nifer o grwpiau BAME yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Gwyn Prydeinig.

Yn 2011, roedd 28.7% o Sipsi neu Deithwyr Gwyddelig a 27% o bobl Bangladeshaidd yn byw mewn tai gorlawn (hynny yw, roedd ganddynt lai o ystafelloedd gwely nag oedd eu hangen arnynt i osgoi rhannu lle nad oedd hynny'n ddymunol). Roedd 19.4% o bobl Ddu a 18.5% o bobl Arabaidd yn byw mewn tai gorlawn, o'u cymharu â 4.9% o bobl Gwyn Prydeinig. Roedd pobl Du Caribiaidd yn llai tebygol o fyw mewn tai gorlawn na phobl Du Affricanaidd (21.7%) a'r rheini o gefndiroedd ethnig Du eraill (26.9%).

Siart 2: Canran y preswylwyr sy'n byw mewn tai gorlawn (safon ystafell wely), yn ôl ethnigrwydd, Cymru 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

3.4 Digartrefedd

O'r aelwydydd hynny a oedd wedi gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai yn 2018-19 oherwydd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd, roedd 8% ohonynt o gefndir Du neu leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae 14 y cant o aelwydydd yr asesir eu bod yn anfwriadol ddigartref a bod angen blaenoriaethol arnynt yn dod o gefndir BAME, ac o'r rhain derbyniodd 83 y cant gynnig o lety addas sefydlog.

4 Tlodi Incwm Cymharol

Diffinnir rhywun fel byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60 y cant o incwm cyfartalog aelwydydd yn y DU (yn ôl y canolrif).

Mae dadansoddiad o [set ddata ddiweddaraf Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog](#) yn dangos y canlynol:

- Roedd pobl sy'n byw mewn aelwydydd yng Nghymru lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp ethnig heb fod yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o'u cymharu â phobl sy'n byw mewn aelwydydd lle mae'r penteulu yn perthyn i grŵp ethnig gwyn.
- Rhwng 2014-15 a 2018-19, roedd tebygolrwydd o 25% bod pobl o grŵp ethnig heb fod yn wyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â thebygolrwydd o 23% ar gyfer y rheini o grŵp ethnig gwyn (ar gyfartaledd dros bum mlynedd ariannol).

5 Amddifadedd

[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru.

Cafodd ffigurau a gynhyrchwyd o set ddata gyfun ddiweddaraf yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2016 i 2018) eu dadansoddi ochr yn ochr â data MALIC 2019 a oedd wedi'u rhyddhau'n ddiweddar. Roedd y dadansoddiad dilynol yn dangos bod pobl o gefndir BAME yn fwy tebygol o lawer o fod yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd – yn benodol:

- Roedd bron i 11% o'r bobl sy'n byw yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yn dod o gefndir BAME. Mae hyn yn fwy na dwbl cyfran y bobl BAME yn y boblogaeth gyffredinol.
- Dim ond 3.3% o'r bobl sy'n byw yn y 50% o ardaloedd bach lleiaf difreintiedig oedd yn dod o gefndir BAME.
- Roedd dros draean (34.9%) o'r bobl o gefndir ethnig Du yn byw yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig.
- Roedd yr holl grwpiau BAME yn fwy tebygol o fod yn byw yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig o'u cymharu â phobl o gefndir Gwyn.

Nid yw'r dadansoddiad yma wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd, ond mae ar gael ar gais.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [ddadansoddiad o'r marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ôl ardal leol ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol](#) diweddaraf am farwolaethau digwyddodd rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2020.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos mai cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd 109.5 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth, sydd bron ddwywaith yn fwy na'r gyfradd marwolaethau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru (57.5 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth).

Dadansoddiadau a gyhoeddwyd (i) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau COVID-19 yn ôl ethnigrwydd a galwedigaeth, (ii) gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys ar gleifion difrifol wael ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau, a (iii) gan Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws – Iechyd Cyhoeddus Cymru

1. Marwolaethau Cysylltiedig â COVID-19 yn ôl Grŵp Ethnig yng Nghymru a Lloegr, 2 Mawrth 2020 i 15 Mai 2020

Mae dadansoddiad a [gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn dangos bod y risg o farwolaeth gysylltiedig â COVID-19 ymysg rhai grwpiau ethnig, yng Nghymru a Lloegr, yn sylweddol uwch nag y mae ymysg pobl o ethnigrwydd Gwyn. Mae'r gwahaniaeth hwn yn rhannol oherwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol, lleoliad daearyddol ac amgylchiadau eraill, ond mae rhan o'r gwahaniaeth heb ei hesbonio eto.

Rhwng 2 Mawrth a 15 Mai 2020, roedd 44 o farwolaethau yng Nghymru a oedd yn cynnwys COVID-19 ymhlith grwpiau BAME. Mae hyn yn awgrymu bod marwolaethau a oedd yn cynnwys COVID-19 yn cyfrif am gyfran uwch o'r holl farwolaethau mewn grwpiau BAME (35%) yn y cyfnod hwnnw o gymharu â'r rhai yn y grŵp Gwyn (23%).

Pwyntiau allweddol:

- Ar ôl ystyried maint a strwythur oedran y boblogaeth, mae dadansoddiad dros dro ar gyfer y cyfnod rhwng 2 Mawrth a 15 Mai 2020 yn dangos bod y gyfradd marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 ar ei uchaf ymysg dynion o gefndir ethnig Du, sef 255.7 o farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth, ac ar ei hisaf ymysg dynion o gefndir ethnig Gwyn, sef 87.0 o farwolaethau am bob 100,000 o'r boblogaeth.
- Ar gyfer menywod, roedd y patrwm yn debyg: roedd y cyfraddau uchaf ymysg y rhai o gefndir ethnig Du (119.8) a'r cyfraddau isaf ymysg y rhai o gefndir ethnig Gwyn (52.0).
- I ddeall ac egluro'r gwahaniaethau hyn, ymchwiliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ymhellach drwy foddelu ystadegol gan ddefnyddio gwybodaeth o aelwydydd preifat yn unig yng Nghyfrifiad 2011.
- Ar gyfer pob oedran, dangosodd y dadansoddiad hwn fod y gyfradd marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 ar gyfer dynion Du 3.3 gwaith yn fwy na'r gyfradd ar gyfer dynion Gwyn o'r un oedran. Roedd y gyfradd ar gyfer menywod Du 2.4 gwaith yn fwy na'r gyfradd ar gyfer menywod Gwyn.
- Ar ôl addasu ar gyfer nodweddion rhanbarthol, dwysedd poblogaeth, nodweddion demograffig-gymdeithasol a nodweddion aelwydydd, roedd y risg uwch o farwolaeth gysylltiedig â COVID-19 ar gyfer pobl o gefndir ethnig Du o bob oedran gyda'i gilydd 2.0 gwaith yn fwy ar gyfer dynion ac 1.4 gwaith yn fwy ar gyfer menywod o'u cymharu â'r rhai o gefndir ethnig Gwyn.
- Ar gyfer dynion o gefndir ethnig Bangladeshaid, Pacistanaid ac Indiaid, roedd y risg o farwolaeth gysylltiedig â COVID-19 hefyd yn sylweddol uwch (1.5 ac 1.6 gwaith yn fwy, yn y drefn honno) na dynion Gwyn, ar ôl ystyried nodweddion rhanbarthol, dwysedd poblogaeth, nodweddion demograffig-gymdeithasol a nodweddion aelwydydd. Fodd bynnag, ar gyfer

menywod mewn grwpiau ethnig Bangladeshaidd neu Bacistanaidd, Indiaidd, Tsieineaidd a Chymysg, roedd y risg o farwolaeth gysylltiedig â COVID-19 yn gyfwerth â risg menywod Gwyn.

- Wrth edrych ar gyfanswm y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19, roedd 88.6% ohonynt o grŵp ethnig Gwyn, 6.2% o grŵp ethnig Asiaidd, 4.0% o grŵp ethnig Du a 0.5% o grŵp ethnig Arall.

2. Marwolaethau Cysylltiedig â COVID-19 yn ôl Galwedigaeth yng Nghymru a Lloegr

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [dadansoddiad o farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ôl galwedigaeth yng Nghymru a Lloegr](#).

Dyma'r prif bwyntiau i Gymru a Lloegr:

- Cafodd cyfanswm o 2,494 o farwolaethau cysylltiedig â'r Coronafeirws (COVID-19) ymysg y boblogaeth oedran gweithio (20 i 64 oed) yng Nghymru a Lloegr eu cofrestru hyd at ac yn cynnwys 20 Ebrill 2020.
- Roedd bron i ddwy ran o dair o'r marwolaethau hyn yn ddynion (1,612 marwolaeth) ac roedd cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ystadegol uwch ymysg dynion, gyda 9.9 marwolaeth fesul 100,000 o'i chymharu â 5.2 marwolaeth fesul 100,000 o ferched (882 marwolaeth).
- O'i chymharu â'r gyfradd ymysg pobl o'r un rhyw ac oedran yng Nghymru a Lloegr, roedd y gyfradd uchaf o farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 ymysg dynion sy'n gweithio yn y galwedigaethau lleiaf medrus, gyda 21.4 marwolaeth fesul 100,000 o ddynion (225 marwolaeth); roedd un o'r cyfraddau uchaf ymysg dynion sy'n gweithio fel swyddogion diogelwch, gyda 45.7 marwolaeth fesul 100,000 (63 marwolaeth).
- Roedd cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn sylweddol uwch ymysg dynion a merched sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, grŵp sy'n cynnwys gweithwyr gofal a gofalwyr cartref. 23.4 marwolaeth fesul 100,000 (45 marwolaeth) oedd y gyfradd ymysg dynion, a 9.6 marwolaeth fesul 100,000 (86 marwolaeth) ymysg merched.
- O ran gweithwyr gofal iechyd, gan gynnwys y rheini mewn swyddi fel meddygon a nyrsys, ni chanfuwyd bod cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn uwch yn eu mysg o'u cymharu â'r gyfradd ymysg y rheini o'r un oedran a rhyw yn y boblogaeth gyffredinol yr oedd eu marwolaeth yn gysylltiedig â COVID-19.
- Canfuwyd bod cyfradd y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn uwch ymysg dynion mewn galwedigaethau penodol eraill, gan gynnwys: gyrwyr tacsis a chauffeurs (36.4 marwolaeth fesul 100,000); gyrwyr bysiau a bysiau moethus (26.4 marwolaeth fesul 100,000); cogyddion (35.9 marwolaeth fesul 100,000); a chynorthwyr gwerthu ac adwerthu (19.8 marwolaeth fesul 100,000).

Sylwch nad yw'r dadansoddiad hwn yn profi'n derfynol bod cyfraddau'r marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 a welwyd wedi'u hachosi gan wahaniaethau o ran dod i gysylltiad â'r feirws fel rhan o'r alwedigaeth o reidrwydd; roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi addasu ar gyfer oedran ond nid ar gyfer ffactorau eraill fel grŵp ethnig a man preswyllo. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi cyhoeddi erthygl sy'n edrych ar y gwahaniaethau posibl o ran [dod i gysylltiad â COVID-19 fel rhan o'r alwedigaeth](#).

3. Adroddiadau'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys ar COVID-19 mewn Gofal Critigol

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau wythnosol ar yr achosion mewn unedau gofal critigol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ers mis Ebrill, mae'r rhain wedi dangos yn gyson bod traean o'r achosion o COVID-19 wedi'u cadarnhau a dderbyniwyd i unedau gofal critigol, lle cofnodwyd yr ethnigrwydd, yn bobl o gefndir BAME. Caiff hyn ei gadarnhau yn yr [adroddiad diweddaraf](#) sy'n cynnwys data hyd at 18 Mehefin 2020.

Dengys yr adroddiad fod cyfran y cleifion BAME sy'n ddifrifol wael â COVID-19 yn ymddangos yn uwch na'r poblogaethau lleol y maen nhw'n hanu ohonynt (ar sail data wardiau Cyfrifiad 2011*).

Mae [adroddiad ar wahân i Gymru diweddaraf](#) y Ganolfan yn cynnwys cleifion difrifol wael ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau yr adroddwyd i'r Ganolfan hyd at 4pm ar 11 Mehefin 2020 o unedau gofal critigol yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Cymysgedd Achosion (yr archwiliad clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal critigol oedolion). Mae'r Ganolfan wedi cael gwybod am 410 o dderbyniadau i ofal critigol yng Nghymru oherwydd achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau. O'r rhain mae data cynnar ar y 24 awr gyntaf o ofal critigol wedi cael eu cyflwyno i'r Ganolfan ar gyfer 375 o dderbyniadau, ar gyfer 349 o gleifion. Mae'r dadansoddiad yn dangos, o'r rheini y cofnodwyd eu hethnigrwydd, roedd 14.3% yn dod o gefndir BAME.

Roedd 85.7% o'r derbyniadau i ofal critigol ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau yng Nghymru yn bobl wyn; roedd 6.9% yn bobl o gefndiroedd Asiaidd; 1.5% yn bobl o grwpiau ethnig du; 1.8% yn bobl o grwpiau ethnig cymysg; a 4.2% o grwpiau ethnig eraill. Mae'n ymddangos bod cyfran y bobl o gefndir Asiaidd a chefniroedd ethnig eraill sydd wedi'u derbyn i ofal critigol â COVID-19 yn amlwg uwch na'r poblogaethau lleol y maen nhw'n hanu ohonynt (ar sail data wardiau Cyfrifiad 2011*).

Mae adroddiad 11 Mehefin y Ganolfan yn cynnwys rhywfaint o fanylion ychwanegol am bobl BAME yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn dangos bod y cleifion hynny o ethnigrwydd heb fod yn wyn sy'n ddifrifol wael ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau ychydig yn iau, yn fwy tebygol o gael BMI is, yn llai tebygol o fod wedi gorfod cael cymorth gyda gweithgareddau bob dydd cyn cael eu derbyn i'r ysbyty, ac yn fwy tebygol o ddod o ardaloedd mwy difreintiedig o'u cymharu â chleifion o ethnigrwydd gwyn sy'n ddifrifol wael. O ran cydafiachedd difrifol, roedd gan gyfran uwch o gleifion difrifol wael heb fod yn wyn ag achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau gydafiachedd arennol difrifol o'u cymharu â chleifion gwyn (2.9% o'i gymharu ag 1.2%), ac roedd gan gyfran is o gleifion heb fod yn wyn gydafiachedd imiwnedd gwan difrifol o'u cymharu â chleifion gwyn (2.5% o'i gymharu â 4.0%).

*Dylid bod yn ofalus oherwydd mae'n bosibl nad yw data'r Cyfrifiad yn adlewyrchu cyfansoddiad cyfredol y poblogaethau lleol.

4. Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae [Canfyddiadau Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws – Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn awgrymu bod coronafeirws a'r cyfyngiadau symud yn cael mwy o effaith ar iechyd a llesiant meddyliol trigolion BAME yng Nghymru ar hyn o bryd.

Yn benodol:

- Roedd bron i draean o ymatebwyr BAME (30%) yn dweud eu bod yn teimlo'n bryderus iawn, o'i gymharu ag un o bob pum ymatebwr gwyn.
- Roedd traean o ymatebwyr BAME yn dweud eu bod yn teimlo'n ynysig (o'i gymharu â 22% o ymatebwyr gwyn), ac
- Roedd un o bob pum ymatebwr BAME yn poeni llawer am eu sefyllfa ariannol (o'i gymharu â 15% o ymatebwyr gwyn)

Fodd bynnag, mae ymatebwyr BAME hefyd yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau gweddio ac ymwybyddiaeth ofalgar (37% a 19% o ymatebwyr BAME yn y drefn honno), a allai fod yn ffordd gadarnhaol o ymdopi â'r ffactorau straen presennol.

Yn ôl yr arolwg, mae cyfran y bobl sydd wedi profi'r coronafeirws, neu'n meddwl eu bod wedi, yn debyg iawn ar draws cymunedau BAME a gwyn. Mae'r grwpiau hefyd yr un mor bryderus am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael.

Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae a wnelo erthyglau ystadegol â dadansoddiadau untro lle na fwriedir eu diweddarau, yn y byrdymor o leiaf, a'u diben yw sicrhau bod y fath ddadansoddiadau ar gael i gynulleidfa ehangach nag a fyddai'n wir fel arall. Fe'u defnyddir yn bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

- cyflwyno cyfres newydd o ddata arbrofol
- dadansoddiad rhannol o fater sy'n darparu man cychwyn defnyddiol i gyflawni rhagor o ymchwil ond sydd, serch hynny, yn ddadansoddiad defnyddiol yn ei rinwedd ei hun
- tynnu sylw at ymchwil sydd wedi'i chynnal gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol tanlinellu'r casgliadau, neu adeiladu ar yr ymchwil ymhellach
- dadansoddiad lle nad yw'r canlyniadau o ansawdd mor uchel â'r rhai yn ein datganiadau ystadegol a'n bwletinâu arferol efallai, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrion o hyd gan ddefnyddio'r canlyniadau.

Pan fo ansawdd yn broblem, gall hyn godi mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- ni ellir nodi'r cyfnod o amser a ddefnyddir yn gywir (a all ddigwydd pan ddefnyddir ffynhonnell weinyddol)
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddir
- resymau eraill a nodir.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n cael effaith sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod o amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu llunio, neu drefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa. Nid yw'r

dadansoddiad a gyflwynir yn gyfystyr ag Ystadegyn Gwladol, ond gellir ei ddefnyddio gydag allbynnau Ystadegau Gwladol a bydd, serch hynny, wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o gryfderau a gwendiau'r dadansoddiad wedi'i gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymhariaeth â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellir defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg sydd ar waith.

Mae erthyglau yn dilyn yr arferion rhyddhau a ddiffinnir yn y protocol arferion rhyddhau ac, felly, er enghraifft, fe'u cyhoeddir ar ddyddiad a bennir ymlaen llaw yn yr un ffordd ag allbynnau ystadegol eraill.

Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

.. Nid yw'r eitem o ddata ar gael

. Nid yw'r eitem o ddata yn gymwys

- Nid yw'r eitem o ddata yn cyfateb i sero'n union, ond fe'i hamcangyfrifwyd yn sero neu'n llai na hanner y digid terfynol a ddangosir

* Mae'r eitem o ddata yn ddatgelol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.

